

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Rhagfyr 2017



Bore Coffi Macmillan

Ar y 10fed o Hydref, fe wnaeth y Cyngor Ysgol drefnu Bore Coffi hynod lwyddiannus yn yr ysgol er mwyn codi arian ar gyfer elusen Macmillan. Bu nifer o'r staff a'r cyhoedd yn brysur yn pobi cacennau a danteithion o bob math ar gyfer yr achlysur. Llwyddwyd i godi £287.00 ar gyfer yr elusen teilwng hwn. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd at lwyddiant y bore.



Diwrnod Plant Mewn Angen – 17 Tachwedd, 2017

Yn unol ar arfer cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau diwrnod yn gwisgo dillad o'u dewis hwy. Llwyddwyd i godi £342.00 tuag at yr elusen hynod boblogaidd yma.

Wythnos Gwrth fwlio – 13 – 17 Tachwedd, 2017

Trefnwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos i flwyddyn 8. Cafwyd gweithdy RAP gyda Ed Holden a gweithdy Drama hefo Barnados a gweithdy hefo Iwan o'r Urdd. Rhoddodd PC Dewi Owen gyflwyniad i pawb ar Seiber fwlio. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag ar yr wythnos.

Daeth yr wythnos i ben gyda disgo i flwyddyn 7 ac 8 yn y Neuadd. Diolch i PCSO Mark Hughes am fod yn DJ i ni.



YSGOLION CREADIGOL

Ers mis Hydref mae dosbarth o flwyddyn 7 wedi bod yn gweithio â dau artist proffesiynol yr wythnos. Mae Martin Daws yn fardd ac yn rapiwr proffesiynol ac mae Martin Thomas yn actor ac yn gyfarwyddwr penicamp. Gyda'i gilydd maent yn gweithio ar ddatblygu medrau'r disgyblion yn y Saesneg gan ganolbwyntio ar lafar, darllen, ysgrifennu a pherfformio drwy gyfrwng Saesneg. Mae'r disgyblion, yr artistiaid a'r athrawon yn cael modd i fyw ac yn edrych ymlaen at y sesiynau bob dydd lau.



CYNGERDD NADOLIG – Croeso i bawb ddod i'r Cyngerdd Nadolig blynyddol yma yn Ysgol Eifionydd nos Lun 18 Rhagfyr 2018 am 6:00 y.h. Mae tocynnau ar gael yn yr ysgol.



CHWARAEON

Yn ystod amser cinio'r 27^{ain} o Hydref cafodd nifer o ddisgyblion hwyl iawn yn y Gampfa mewn cystadleuaeth pêl droed ZORB. Llwyddwyd i godi £147 tuag at yr Adran Addysg Gorfforol.



Llongyfarchiadau i'r hogiau am ddod yn 2il yn Nhwrnament Rygbi Blwyddyn 8 Dwyfor.



Llongyfarchiadau i Awen Puw a Lleucu Lane ar gael eu dewis i gynrychioli tim hoci Gwynedd dan 16. Da iawn chi genod. Diolch i Nigel Hughes am y llun.



Llongyfarchiadau i fechgyn Blwyddyn 7 ar guro Ysgol Bro Idris 6 – 0 ac Ysgol Glan y Môr 5 – 3 ym mhêldroed.



Llongyfarchiadau i Grace McMeeken ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Tymblo Gymnasteg trwy Prydain Fawr yn ddiweddar. Dalier ati Grace. Diolch i Nigel Hughes am y llun.



Bu Mali Quaek yn chwarae yn erbyn y Scarlets U18 yn Stadium ZipWorld, Eirias Parc yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i ti Mali. Diolch i Nigel Hughes am y llun.

LLWYDDIANT CYN-DDISGYBL

Hoffai'r ysgol longyfarch Cedron Sion ar ei lwyddiant haeddianol ar ennill Ysgoloriaeth Bryn Terfel ym mis Hydref. Da iawn Cedron a phob dymuniad da i ti.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL.